Town Clerk:
Ms C.A .Paterson

Technical Officer:
Mr R.H. Griffiths

The Shire Hall
Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824413

Cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd yn Hen Neuadd y Sir, Llandeilo ar ddydd Mercher 2il Gorffennaf 2003 am 8.30 pm.

Presennol : Cynghorwyr: Cyng. R. Bellamy, Cyng. S. Burge, Cyng. K. Day (Cadeirydd), Cyng. G. Price, Cyng. C. Jenkins, Cyng. D. A. Jones

Arall: Colette Paterson (Clerc y Dref), R. Huw Griffith (Swyddog Technegol)

5807: Ymddiheuriadau: Cyng. I. Gwyn (Er mwyn cadw cworwm cytunodd y Cyng. Bellamy i sefyll yn lle'r Cyng. Gwyn), Cyng. D. Williams, Cyng. G. Vaughan Jones.

5808: Materion Cynllunio: Mae'r Cyngor wedi derbyn 5 mater cynllunio:

TG04258 – Cynllunio Llawn i flaen newydd siop yn 139 Stryd Rhosmaen.

Nid oedd y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais hwn.

Trosglwyddo Trwyddedau yn siop gwerthu diodydd 'Thresher'

Clerc i gydnabod derbyn.

TG04285 – rhagor o ddatblygu yn Lôn Rhys – heb weld y manylion cynllunio hyd yn hyn.

Cais am weld manylion llawn y cais cynllunio gan gyfeirio at y dwysedd tai a ddatganwyd yn y ceisiadau cynllunio gwreiddiol.

TG 04361 – Cynllunio llawn ar gyfer cartref 2 lawr yn Heol Diana – wnaeth y Cyng. Price ddatgan diddordeb gan adael yr ystafell.

Nid oedd gan y cyngor unrhyw wrthwynebiadau i'r cais cynllunio hwn.

Daeth y Cyng. Price yn ôl i mewn i'r ystafell.

TG03691 – Manylion llawn ar gyfer cais am gynllunio llawn yng nghefn 66 Stryd Rhosmaen. Roedd datganiad dylunio gan y pensaer yn rhan o'r cais.

Roedd y cyngor o'r farn fod yr adeilad hwn yn fawr iawn ac y byddai'n dominyddu'r tirwedd, yn tywyllu capel hynafol a hen deras o dai. Roedd hefyd yn amlwg iawn yn ceisio adlewyrchu pensaernïaeth Sioraidd, ac er y gellir canfod y math hwn o bensaernïaeth yn Llandeilo, y farn oedd ei fod yn edrych braidd yn rhyfedd yn y lleoliad arbennig hwn. Gan fod y safle wedi'i leoli yng nghanol yr ardal Cadwraeth, y farn oedd fod angen rhywfaint o waith asesu'r archeoleg, ar gyfer unrhyw fath o ddatblygiad yn yr ardal hon. .

5809: Datblygu hen safle'r cyngor yn Stryd Rhosmaen. Teimlwyd ei bod braidd yn anffodus nad oedd yr Adran Gynllunio wedi gallu mynd â'r Cyngor ar ymweliad â'r safle oherwydd pwysau amser.

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a'r Maer yn trafod gyda Mr Simon Buckley i weld a fyddai'n gallu mynd â'r Cyngor ar ymweliad â'r safle er mwyn i'r cyngor gael gwybod am yr hyn sy'n digwydd yn y datblygiad lleol a phwysig hwn.

5810: Materion trafnidiaeth a goleuo; Dim materion newydd wedi'u nodi. Holodd y Cyng. Sid Burge yngl n â'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn perthynas â chyflwr y Gysgodfa Fysiau y tu allan i'r eglwys. Dywedodd y clerc ei bod yn ceisio cael gwybod pwy sy'n gyfrifol amdano ac y byddai'n parhau i wneud. Nodwyd bod rhywfaint o fandaliaeth wedi digwydd yng Nghiosg BT yn y Maes Parcio. Y gobaith yw y bydd y math hwn o ddigwyddiad yn lleihau gyda chyrhaeddiad C. C. T. V. ac awgrymwyd rhoi pumed camera C. C. T. V. ar y safle hwn.

Penderfynodd y Cyngor drafod y diweddaraf ynghylch y mater C.C.T.V yng nghyfarfod y Cyngor Llawn nesaf o dan Materion yr Heddlu.

Nid oedd rhagor o ohebiaeth a daeth y cyfarfod i ben am 9.00pm.